

**NODIADAU ESBONIADOL BIL TRETH Y CYNGOR****Diogelu Data**

Bydd yr wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei dal mewn perthynas â Threth y Cyngor yn cael ei thrin yn gyfrinachol a bydd yn cael ei phrosesu fel a ganiateir yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) o 25<sup>ain</sup> Mai 2018. Gellir rhannu'r wybodaeth gyda gwasanaethau eraill y Cyngor at ddibenion atal a chanfod twyll ac i gydymffurfio ag unrhyw anghenion cyfreithiol a rheoleiddiol. Mae dyletswydd ar yr awdurdod i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn, ac i'r perwyl yma gall ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi ar gyfer y dibenion yma. Gall hefyd rannu'r wybodaeth yma gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus ar gyfer y dibenion yma.

**Bandiau prisio Treth y Cyngor**

Mae Treth y Cyngor yn cael ei godi ar y rhan fwyaf o eiddo. Mae pob eiddo yn perthyn i un o naw band yn ôl ei werth ar 1 Ebrill 2003.

Band prisio	Ystod o werth	Band prisio	Ystod o werth
A	Hyd at ac yn cynnwys £44,000	E	£123,001 - £162,000
B	£44,001 - £65,000	F	£162,001 - £223,000
C	£65,001 - £91,000	G	£223,001 - £324,000
D	£91,001 - £123,000	H	£324,001 - £424,000
		I	£424,001 ac uwch

Mae eich bil Treth y Cyngor yn dangos y band ar gyfer eich eiddo

**Eiddo eithriadig**

Nid yw Treth y Cyngor yn cael ei godi ar eiddo penodol (a elwir yn eiddo wedi'i eithrio). Mae eiddo eithriadig yn cynnwys eiddo a feddiannir yn unig gan fyfyrwyr, pobl o dan 18 oed, rhai sy'n gadael gofal, pobl sydd â nam meddyliol difrifol, rhandai a feddiannir gan berthnasau dibynnol ac eiddo lle mae'r bobl oedd yn byw ynddynt bellach yn y carchar, mewn ysbyty neu gartref gofal nyrsio neu breswyl.

Mae'r eiddo gwag canlynol hefyd wedi'u heithrio.

- Gall eiddo sy'n wag a heb ddodrefn fod yn eithriadig am hyd at chwe mis. Gellir ymestyn y cyfnod hwn i 12 mis ar y mwyaf os oes angen gwaith trwsio mawr/newidiadau strwythurol neu os oes gwaith o'r fath yn mynd rhagddo i'w wneud yn addas i fyw ynddo. Bydd yr eithriad yn cael ei roi o'r dyddiad pan roedd rhywun yn byw yn yr eiddo ddiwethaf ac mae wedi ei gyfyngu i 12 mis hyd yn oed os oes newid mewn perchennog neu'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor.
- eiddo sydd wedi ei gofrestru neu'n eiddo i elusen (uchafswm chwe mis).
- disgwyl derbyn caniatâd am brofiant neu lythyrau gweinyddu (hyd at chwe mis ar ôl profiant).
- adawyd yn wag gan rywun sydd wedi mynd i'r carchar neu wedi symud i dderbyn gofal mewn ysbyty, cartref neu yn rhywle arall.
- adawyd yn wag gan rywun sydd wedi symud i ddarparu gofal personol i berson arall.
- wedi ei adael yn wag os yw'r perchennog yn fyfyrwr.
- meddiannaeth wedi ei wahardd gan y gyfraith.
- wedi ei adfeddiannu.
- cyfrifoldeb ymddiriedolwr methdalwr.
- aros i gael ei feddiannu gan weinidog crefydd.
- meysydd carafanau neu angorfeydd cychod sydd heb eu meddiannu.
- rhandy na ellir ei osod ar wahân i'r prif eiddo heb dorri amodau cynllunio.

**Pobl ag anableddau**

Os ydych chi (neu aelod o'ch aelwyd) yn anabl, a rhan o'ch eiddo neu'r eiddo cyfan wedi cael ei addasu ar gyfer cadair olwyn, ystafell ychwanegol (heblaw ystafell ymolchi, cegin neu doiled) neu ail ystafell ymolchi neu gegin ar gyfer y person anabl, efallai y byddwn yn gostwng eich bil. Gallwn ond leihau eich bil i'r band nesaf islaw eich un chi. Os yw eich cartref ym Mand A bydd y bil yn cael ei ostwng un nawfed tâl Band D.

**Eiddo gwag ac ail gartrefi**

Bydd rhai eiddo gwag yn cael eu heithrio (gweler uchod). Fodd bynnag, o dan Reoliadau Cymru, rydym wedi penderfynu na fydd eiddo sy'n cyfri fel ail gartrefi neu eiddo gwag yn derbyn gostyngiad. Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir.

## Gostyngiadau

Byddwch yn cael gostyngiad o 25% os mai dim ond un person sy'n 18 oed neu drosodd sy'n byw yn yr eiddo. Gall gostyngiadau hefyd fod yn berthnasol i fyfyrwyr, myfyrwyr nyrsio, hyfforddeion hyfforddiant ieuencid, prentisiaid, pobl 18 a 19 oed sydd newydd adael yr ysgol, pobl sydd â nam meddyliol difrifol, pobl yn y carchar, aelodau o gymunedau crefyddol, rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr a phobl sy'n byw mewn cartref gofal preswyl neu'n preswyl mewn ysbyty.

## Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor

Mae hyn yn helpu pobl ar incwm isel i dalu eu bil treth y cyngor. Os ydych ar fudd-daliadau neu os ydych yn gweithio a bod eich incwm o dan lefel benodol gallech fod yn gymwys. Cysylltwch â Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0300 456 3559 neu 0800 652 5422 am ragor o wybodaeth am sut i wneud cais.

## Apeliadau Cyffredinol

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisió (ASB) yn prisió eiddo domestig ar gyfer y dreth gyngor. Efallai y bydd angen i chi gysylltu gyda'r ASB os ydych yn meddwl bod eich band treth gyngor yn anghywir. Gallwch ganfod pryd y gallwch herio eich band a'r hyn sydd angen ei wneud yn [www.gov.uk/challenge-council-tax-band](http://www.gov.uk/challenge-council-tax-band) Os byddwch yn herio eich band, rhaid i chi barhau i dalu'r dreth gyngor yn y band presennol nes penderfynir ar eich apêl.

Gallwch gysylltu gyda'r ASB yn [www.gov.uk/contact-voa](http://www.gov.uk/contact-voa) Os na allwch ddefnyddio'r gwasanaeth arlein, gallwch hefyd gysylltu gyda'r ASB ar 03000 505 505.

Bydd ein Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn rhoi unrhyw gymorth sydd ei angen arnoch chi. Os oes angen rhagor o wybodaeth gallwch ffonio'r tîm ar 01495 766131/766129/766145 e-bost: [revenues@torfaen.gov.uk](mailto:revenues@torfaen.gov.uk) neu ysgrifennwch at y Tîm Treth y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB

## Pwerau Dewisol

O'r 1 Ebrill 2004, mae gan y Cyngor bwerau dewisol i ymestyn y ddarpariaeth o ostyngiadau mewn achosion unigol, ac i ddsbarthiadau o eiddo a bennir yn lleol.